
Merched y Wawr
1914 - 1918
LEST - WE - FORGET
Llannau'r Tywi

Y Faner

Rhannodd yr aelodau eu syniadau ar gyfer creu baner i'r gangen yn seiliedig ar hanes yr ardal. Cynlluniwyd a pharatowyd y faner gan Mrs Bethan Evans a chafodd aelodau eraill oedd â diddordeb gyfle i gyfrannu.
Pleser oedd cael gorymdeithio trwy dre Caerfyrddin yn arddangos y faner ym Mharêd cyntaf Gwŷl Ddewi yn y flwyddyn 2016.

Mae pedair rhan ein baner yn cynrychioli pentrefi Llangain, Llanybri, Llansteffan a Llangynog sydd ger yr afon Tywi.
Llun o gastell Llansteffan sydd ar y chwith ar y rhan uchaf. Codwyd y castell gan y Normaniaid yn gynnar yn y 1100au ar safle bryngar arfordirol gynharach.
Llun o adfeilion Yr Hen Gapel yn Llanybri sydd ar y dde ar y rhan uchaf. Sefydlwyd yr adeilad tua'r flwyddyn 1700 fel man cyfarfod llewyrchus i Anghydffurfwyr ac erbyn tua 1846, cynhaliwyd ysgol ddyddiol yno yn ogystal am gyfnod, nes i gyflwr yr Hen Gapel ddirywio'n enbyd. Gwelir cloc ar y Tŵr a'r dyddiad 1879 sy'n dynodi'r adeg yr atgyweiriwyd y Tŵr. Cynhaliwyd y cyfarfod olaf yn Yr Hen Gapel yn y flwyddyn 1960.
Gan fod pentref Llangain wedi ennill gwobr am y pentref taclusaf yn 1985,1988 a 1989 penderfynwyd cofnodi hyn ar y rhan waelod ar y dde.
Ym mhentref Llangynog saif y gofeb rhyfel 1914 -18 sydd i'w gweld ar y chwith, ar y gwaelod. Saer maen o Lanelli, Martin Edwards a adeiladodd y gofeb ac roedd yntau yn berthynas i un o'n haelodau, sef Beryl Thomas. Dadorchuddiwyd hi gan y Dywysoges Marie Louise, wyres y Frenhines Victoria.

.





Castell Llansteffan



Hen Gapel , Llanybri






Llangynog – Cofeb Rhyfel




Llangain – arwydd pentref taclus